## CEFNDIR

1. Mae Cyngor Gwynedd yn ymghynghori ar ddyfodol Cartref Preswyl Cofrestedig Hafod-y- Gest, Porthmadog, gan gynnig dau opsiwn:

| | |
|---|---|
| Opsiwn 1: | Buddsoddi'n y cartref presennol a'i wella i safon fyddai'n cyfarch dyheuadau trigolion i'r dyfodol. |
| Opsiwn 2: | Buddsoddi i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl sy'n byw adref ond cau'r cartref presennol. |

2. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Gyngor Tref Porthmadog ar Fehefin 7, 2001, i drafod cynnwys Pecyn Gwybodaeth Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad uchod. Mynegwyd pryder am y prinder gwybodaeth sy'n sail i'r ymgynghoriad a daethpwyd i'r penderfyniadau unfrydol canlynol:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad 1: | Peidio llenwi holiadur swyddogol yr ymgynghoriad. |
| Penderfyniad 2: | Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn dynodi nifer o bwyntiau a chwestiynau gododd yn y Cyfarfod Abennig o Gyngor Tref Porthmadog ynglŷn â'r ymgynghoriad. Gweler gopi o'r llythyr yn ATODIAD1. |
| Penderfyniad 3: | Cynnal arolwg barn mewn ffurf holiadur gan holi trigolion Porthmadog am ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Cartref Hafod-y-Gest a'u dyheuadau o ran gofalu am bobl hŷn yr ardal i'r dyfodol. |

3. Lluniwyd holiadur yn cynnwys 14 o gwestiynau a dosbarthu copïau ohono o ddrws i ddrws (oddeutu 2,400 o gartrefi) yn ardal Cymuned Porthmadog sy'n cynnwys tref Porthmadog ei hun yn ogystal â phentrefi Borth-y-Gest, Morfa Bychan, Pwllgoleulas a Thremadog. Rhoddwyd tan dydd Mawrth , Mehefin 22, i dychwelyd yr holiaduron i nifer o siopau'r ardal gytunodd eu derbyn.

## YR YMATEB

1. Dychwelwyd 502 o holiaduron i gyd sef rhagor nac 20% o'r potensial. Gweler ATODIAD 2 am y canlyniadau'n eu cyfanrwydd.

2. O ran proffil roedd 309 (62%) o#r ymatebwyr yn ferched a 193 (38%) yn ddynion. Roedd bron eu hanner (49.7%) wedi byw yn ardal Porthmadog ar hyd eu hoes gyda thraean arall (33.2%) wedi byw'n yr ardal ers dros 20 mlynedd. Prin oedd yr ymatebwyr o dan 30 mlwydd oed (llai na 3%) ond roedd bron chwarter ohonynt (24.6%) dros 80 mlwydd oed. Er hyn ddim ond 15% o'r ymatebwyr oedd yn derbyn unrhyw fath o ofal naill ai adref neu mewn cartref preswyl neu mewn canolfan ddydd. Nid oedd gan y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (88%) unrhyw gysylltiad personnol na theuluol â Chartref Preswyl Hafod-y-Gest. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr wedi'u geni yng Ngwynedd gyda 19 wedi'u geni mewn rhannau eraill o Gymru; 35 yn Loegr; ac un yr un wedi'u geni yn Yr Alban, Awstralia a'r India.

3. Amlygodd yr ymatebion i'r holiadur deyrngarwch a pharch tuag at Gartref Preswyl Hafod-y-Gest gyda bron i dri chwarter yr ymatebwyr (73.7%) o'r farn fod y gofal a ddarperir yno'n wych gyda chwarter arall o'r ymatebwyr (25.5%) o'r farn fod y gofal a ddarperir yno'n dda. Doedd hi ddim yn annisgwyl felly fod hyd at 60% o'r ymatebwyr yn nodi mai OPSIWN 1 yn ymgynghoriad Cyngor Gwynedd fyddai mwyaf derbyniol iddynt sef buddsoddi yn y cartref presennol. Roedd hyd at 20% am weld cartref preswyl newydd yn ardal Porthmadog tra ddim ond 5% oedd yn dewis OBSIWN 2 Cyngor Gwynedd sef Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog. Er hyn roedd 17% yn ffafrio cymysgedd o'r ddau ddarpariaeth.

4. Nododd bron i chwarter yr ymatebwyr fodd bynnag y buasent yn dymuno byw mewn Tai Gofal Ychwanegol pe baent yn methu â byw yn eu cartrefi eu hunain. Ond roedd dros 70% am fyw mewn Cartref Gofal Preswyl yr Awdurdod Lleol pe cyfyd amgylchiadau o'r fath. Roedd 47% yn credu mai darparu cartref cyfforddus yw prif rôl Cartref Gofal Preswyl tra bo 43% o'r farn mai darparu gofal oedd eu prif rôl.

## YMGYNHORIAD CYNGOR GWYNEDD I DDYFODOL HAFOD-Y-GEST

1. Nid oedd rhagor na hanner yr ymatebwyr (57%) wedi darllen y pecyn gwybodaeth sy'n sail i ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i ddyfodol Cartref Preswyl Hafod-y-Gest ac roedd bron i hanner y gweddill (43%) o'r farn fod y pecyn gwybodaeth yn annerbyniol. Nid oedd gan 38% o'r ymatebwyr unrhyw ffydd yn ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ychwaith. Roedd gan 15% ymddiriedaeth lwyr yn y broses.

2. Drwy gyfrwng papurau newydd yr oedd bron i hanner yr ymatebwyr (44%) wedi clywed am ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i ddyfodol Hafod-y-Gest. Prin 10% gafodd wybod drwy dderbyn Pecyn Gwybodaeth Cyngor Gwynedd.

## TAI GOFAL YCHWANEGOL YM MHORTHMADOG

1. Pe gwireddid OPSIWN 2 ym mhecyn gwybodaeth Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Hafod-y-Gest, sef datblygu Tai Gofal Cymunedol ym Mhorthmadog, roedd dros 70% o'r ymatebwyr o'r farn mai ar safle presennol Hafod-y-Gest y dylid gwneud hynny. Roedd 24% yn ffafrio safle Gwynedd Farmers tra roedd y gweddill yn awgrymu lleoliadau amrywiol eraill yn yr ardal megis:
    - safle hen Ysbyty Bron-y Garth;
    - dros y ffordd i'r Orsaf Dân;
    - safle hen olchdy Tremadog;
    - Morfa Bychan;
    - Capel y Garth;
    - safle Sinema'r Coliseum.

2. Roedd tri chwarter yr ymatebwyr (74%) o'r farn na dylid gwerthu cyfran o Dai Gofal Ychwanegol pe byddent yn cael eu datblygu ym Mhorthmadog. Ond nid oedd gan chwarter ohonynt unrhyw wrthwynebiad ar amod y cyfyngir y gwerthiant i bobl leol yn unig.

## CASGLIADAU

1. Roedd yr ymateb i Holiadur Cyngor Tref Porthmadog i fesur barn trigolion y dref i ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i ddyfodol Cartref Preswyl Hafod-y-Gest yn gadarnhaol o ran y nifer o holiaduron a ddychwelwyd ac o ran cynnwys yr atebion ac yn arwydd o'r pryder sydd yna am ddyfodol gofal ar gyfer pobl hŷn yn y gymdogaeth.

2. Nid yw'r pryder hwnnw wedi'i gyfyngu o bell ffordd i bobl sydd â chysylltiad agos â Hafod-y-Gest o ran y preswylwyr a'u teuluoedd nac o ran y staff. Diddorol yw nodi fod yna garfan nid ansylweddol o ymatebwyr hŷn nad sy'n derbyn gofal o unrhyw fath.

3. Ymddengys fod yna gefnogaeth a theyrngarwch cyffredinol yn lleol i Hafod-y-Gest ynghyd â chanmoliaeth arbennig i'r safon o ofal a geir yno:

   "mae'r gartref nodedig"
   "pawb yn canmol y gofal"
   "it's providing dignity"

4. Cymaint felly fel mai cartref gofal preswyl yr awdurdod lleol yw'r dewis mwyaf poblogaidd ar gyfer gofalu am bobl hŷn:

   "council should invest in Hafod-y-Gest"

5. Er hyn teg yw nodi nad pawb sydd am weld Hafod y Gest yn para fel ag y mae. Mae lleiafrif sylweddol yn gweld manteision mewn Tai Gofal Ychwanegol neu'n rhagweld yr angen am y ddau fath o ddarpariaeth maes o law:

   "hanfodol bwysig cadw Hafod-y-Gest yn ogystal â thai gofal"

6. O ran ymgynghoriad Cyngor Gwynedd credir fod y dulliau a fabwysiadwyd i ddosbarthu pecyn gwybodaeth yr ymgynghoriad yn ddiffygiol. Roedd y rhan fwyaf wedi clywed am yr ymgynghoriad drwy gyfrwng y Wasg neu ar lafar. Amlygwyd hefyd ddiffygion yng nghynnwys a hygrededd y pecyn:

   "I didn't even know a consultation pack existed"
   "dim digon o ymchwil wedi'i wneud"
   "what consultation?"
   "cywilydd mawr"
   "dim cydwybod o gwbl"
   "what do you expect from Gwynedd Council when it concerns Porthmadog?"

7. Ymddengys fod deuoliaeth amlwg ym marn pobl Porthmadog tuag at y syniad o Dai Gofal Ychwanegol. Prin oedd y rhai oedd yn dymuno byw mewn darparaeth o'r fath

eu hunain roedd yna peth cefnogaeth ar yr un pryd i'r egwyddor o'u darparu'n yr ardal.

8. Pe byddid yn bwrw ymlaen â Thai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog lleoliadau yng nghanol y dref sy'n cael blaenoriaeth:
"the extra care homes should be part of the community"

9. Nid oedd y syniad o werthu rhai o'r unedau'n cael croeso er y buasai rhoi amod person lleol lleol ar y gwerthiant yn cael mwy o dderbyniad.

## ATODIAD 2 – CANLYNIADAU'R AROLWG

C1: Ydych chi?

| | | |
|---|---|---|
| - yn ddyn | - | 38% |
| - yn ddynes | - | 62% |

C2: Pwy ydych chi ?

| | | |
|---|---|---|
| - rwy'n byw yn Hafod-y-Gest | - | 3.69% |
| - rwy'n byw mewn cartref gofal arall yn yr ardal | - | 0.83% |
| - mae gennyf aelod agos o'r teulu'n byw yn Hafod-y-Gest | - | 5.12% |
| - rwy'n gweithio Hafod-y-Gest | - | 2.46% |
| - ddim un o'r uchod | - | 87.9% |

C3: Ers faint ydych chi'n byw yn ardal Porthmadog?

| | | |
|---|---|---|
| - ar hyd fy oes | - | 49.68% |
| - ers mwy nag 20 mlynedd | - | 33.16% |
| - ers mwyn na 10 mlynedd | - | 10.06% |
| - ers mwy na 5 mlynedd | - | 3.14% |
| - ers llai na 5 mlynedd | - | 3.96% |

C4: Faint yw eich oed chi?

| | | |
|---|---|---|
| - o dan 30 mlwydd oed | - | 2.83% |
| - 30 i 50 mlwydd oed | - | 15.72% |
| - 51 to 70 mlwydd oed | - | 37.3% |
| - 71 to 80 mlwydd oed | - | 19.56% |
| - dros 80 mlwydd oed | - | 24.59% |

C5: Ydych chi'n derbyn gofal ar hyn o bryd?

| | | |
|---|---|---|
| - mewn cartref preswyl | - | 5.02% |
| - yn eich cartref eich hun | - | 7.74% |
| - mewn cartref aelod o'r teulu | - | 0.91% |
| - mewn canolfan ddydd | - | 1.82% |
| - nid wyf yn derbyn gofal | - | 84.51% |

C6: Beth yw eich barn am y gofal a ddarperir yn Hafod-y-Gest?

| | | |
|---|---|---|
| - gwych | - | 73.66% |
| - da | - | 24.55% |
| - gweddol | - | 1.34% |
| - gwael | - | 0.45% |

C7: Sut fath o ddarpariaeth gofal yr hoffech ei weld ym Mhorthmadog?

| | | |
|---|---|---|
| - buddsoddi yn Hafod-y-Gest | - | 58.11% |
| - datbylgu cartref preswyl newydd | - | 18.72% |
| - datblygu Tai Gofal Ychwanegol a ddisgrifir ym mhecyn gwybodaeth Cyngor Gwynedd | - | 4.83% |
| - tipyn o'r ddau | - | 16.6% |
| - unrhyw ddewis arall (nodwch yma) | - | 1.74% |

C8: Beth yw eich barn am becyn gwybodaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer yngynghori ar ddyfodol Hafod-y-Gest?

| | | |
|---|---|---|
| - gwych | - | 5.52% |
| - da | - | 10.64% |
| - gweddol | - | 7.98% |
| - annerbyniol | - | 18.6% |
| - nid wyf wedi darllen y pecyn | - | 57.26% |

C9: Pe byddid yn bwrw ymlaen gyda'r Tai Gofal Ychwanegol p'le y dylid eu hadeiladu?

| | | |
|---|---|---|
| - ar safle presennol Hafod-y-Gest | - | 72.75% |
| - ar safle Gwynedd Farmers | - | 24.83% |
| - rhywle arall yn yr ardal | - | 2.42% |

C10: A ddylid gwerthu rhai o'r Tai Gofal Ychwanegol?

| | | |
|---|---|---|
| - Na | - | 73.93% |
| - ia – ond gydag amod defnydd lleol | - | 24.41% |
| - ia – heb unrhyw amod | - | 1.66% |

C11: Faint o ffydd sydd gennych chi yn ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Hafod-y-Gest?

- llawer iawn o ffydd - 15.82%
- ychydig o ffydd - 45.51%
- dim ffydd o gwbl - 38.67%

Q12: Pe byddech yn methu byw adref yn y dyfodol lle yr hoffech chi fyw?

- mewn cartref gofal preswyl yr awdurdod lleol - 72.03%
- mewn tai gofal ychwanegol - 24.23%
- mewn cartref gofal preswyl preifat - 3.74%

C13: Beth yn eich barn chi yw rôl pwysicaf cartref gofal preswyl?

- darparu cartref cyfforddus - 46.89%
- darparu gofal - 43.57%
- darparu gweithgareddau - 9.54%
- unrhyw rôl arall - -------

C14: Sut wnaethoch chi glywed am ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar ddyfodol Hafod-y-Gest?

- mewn papur newydd - 44.26%
- rhywun ddywedodd wrthych chi - 39.48%
- drwy lythyr - 4.56%
- drwy ddarllen pecyn gwybodaeth Cyngor Gwynedd - 9.32%
- arall (nodwch) - 2.38%

**GWAHODDWYD YR YMATEBWYD I GOFNODI EU HENWAU a LLOFNODI EU HOLIADURON.**